# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion (LC1(3)-04-10)

**Dyddiad: 11 Chwefror 2010**
**Amser: 1.00 - 2.14**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler (Cadeirydd), Gorllewin Casnewydd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Nick Ramsay, Sir Fynwy

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Bethan Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol
Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Chris Franks. Roedd Bethan Jenkins yn dirprwyo.

Sesiwn breifat

Yn y cyfarfod ar 28 Ionawr, cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi) i wahardd y cyhoedd o'i drafodaethau ar gyfer Eitem 2 ac unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch yr argymhellion allweddol yn Adroddiad Cyfnod 1.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)

2.1. Ystyriodd y Pwyllgor faterion allweddol y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd ar ei safbwynt ar gyfer yr adroddiad.